

Prifysgol Wreccsam
Wrexham University

Ymgysylltiad Myfyrwyr mewn Polisi Sicrhau a Gwella Ansawdd

2025/26

Cynnwys

1	Diben y Polisi	2
2	Cwmpas	2
3	Diffiniad o Ymgysylltiad Myfyrwyr	2
4	Undeb Myfyrwyr Wrecsam (UM Wrecsam)	3
5	Siarter y Myfyrwyr	3
6	System Cynrychiolwyr Cwrs	4
7	Effaith Ymgysylltiad Myfyrwyr	4
8	Cyfleoedd ar gyfer Ymgysylltu â Myfyrwyr	5
9	Manteision Ymgysylltu i Fyfyrwyr a Phrifysgol Wrecsam	6
10	Hyfforddiant a Chymorth	7
11	Cydnabod a Dathlu Cyfraniad Myfyrwyr	7
12	Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	8
13	Y fframwaith a'r mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â myfyrwyr	9

1 Diben y Polisi

1.1 Mae ymgysylltiad myfyrwyr fel partneriaid yn hanfodol i ethos Prifysgol Wrecsam. Mae Profiad a Chyfleoedd Myfyrwyr yn un o dair thema allweddol yng Ngweledigaeth a Strategaeth y Brifysgol ar gyfer 2030. Gweledigaeth a Strategaeth y Brifysgol hyd at 2030 a'r Strategaeth ar gyfer Cefnogi Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr (SSSLA) sy'n cefnogi'r Brifysgol i ddarparu profiad rhagorol sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr, a pharhau i adeiladu ar ei gwaith gyda myfyrwyr fel partneriaid. Safbwynt y Brifysgol yw ein bod yn gweithio'n fwy effeithiol gyda'n myfyrwyr ac mae PW wedi ymrwmo i roi myfyrwyr wrth wraidd yr hyn a wnawn.

1.2 Mae'r Polisi hwn yn amlinellu sut mae PW yn cefnogi ac yn galluogi myfyrwyr i gael y cyfle i ymgysylltu â gweithgareddau sicrhau a gwella ansawdd a chymryd rhan ynddynt a rhoi adborth ar eu profiad dysgu fel myfyrwyr. Mae'r manylion gweithredol wedi'u cynnwys yn y Fframwaith ar gyfer Ymgysylltu â Myfyrwyr (Adran 8).

1.3 Mae'r polisi wedi'i ddatblygu ar y cyd gan y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr. Caiff y polisi ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Bwrdd Academaidd a Chyngor y Myfyrwyr.

1.4 Wrth ddatblygu'r polisi hwn, mae Cod Ansawdd y DU 2024 yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd **Egwyddor 2 - Ymgysylltu â myfyrwyr fel partneriaid** wedi cael ei ystyried ac mae PW wedi ymrwmo i:

- Gymryd camau bwriadol i ymgysylltu â myfyrwyr fel partneriaid gweithredol wrth sicrhau a gwella ansawdd profiad dysgu myfyrwyr.
- Sicrhau bod ymgysylltiad yn digwydd yn unigol ac ar y cyd i ddylanwadu ar bob lefel o astudio a gwneud penderfyniadau.

2 Cwmpas

2.1 Bwriedir i'r Polisi a'r Fframwaith Ymgysylltiad Myfyrwyr mewn Sicrhau a Gwella Ansawdd fod yn berthnasol i bob myfyriwr sy'n astudio am ddyfarniad Prifysgol Wrecsam (PW), gan gynnwys y myfyrwyr hynny sy'n astudio yn un o ddarparwyr partner PW yn y DU a thramor, ac ar-lein. Efallai y bydd rhai gweithgareddau ymgysylltu â myfyrwyr penodol yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n astudio ar gampysau PW ei hun yn unig, ond bydd cyfleoedd cyfatebol ar gael i fyfyrwyr partneriaid ac ar-lein.

2.2 Bydd y polisi a'r fframwaith yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan PW, cynrychiolwyr myfyrwyr, ac Undeb y Myfyrwyr.

3 Diffiniad o Ymgysylltiad Myfyrwyr

3.1 Mae PW yn diffinio ymgysylltiad myfyrwyr fel y broses o gymryd camau bwriadol a chadarnhaol i rymuso a chynnwys pob myfyriwr, mewn partneriaeth â staff a gyda'i gilydd, i lunio eu profiad dysgu fel myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys yn unigol (e.e. trwy arolygon) ac ar y cyd (e.e. trwy grwpiau ffocws myfyrwyr) ac mae wedi'i ategu gan ymrwymiad i sicrhau bod gan bob

myfyriwr, waeth beth fo'u cefndir neu leoliad, allu ystyrlon i gyfrannu gyda'r diben o sicrhau a gwella profiad dysgu myfyrwyr ar gyfer carfannau presennol a rhai'r dyfodol.

3.2 Mae safbwynt a llais y myfyrwyr yn hanfodol i ansawdd addysg uwch, gan amlygu arfer da a meysydd lle gellid gwneud gwelliannau er budd pawb. Mae'r Brifysgol yn ystyried Undeb y Myfyrwyr fel llais cyfunol myfyrwyr waeth ble maen nhw'n astudio.

3.3 Mae gan fyfyrwyr sy'n astudio ym Mhrifysgol Wrecsam system o [diwtoriaid personol](#) (gyda system gyfatebol ar gyfer myfyrwyr ar-lein) ac mae agweddau anffurfiol a ffurfiol cynrychiolaeth myfyrwyr, ochr yn ochr â dull cefnogol o ddysgu ac addysgu, yn hyrwyddo diwylliant lle mae barn myfyrwyr yn cael ei chroesawu ar bob lefel; modiwl, rhaglen, cyfadran a phrifysgol. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gyfathrebu â myfyrwyr o ran pryd a sut y gweithredwyd ar eu hadborth, ac os nad yw newid yn bosibl, y rhesymau pam.

3.4 Mae gan fyfyrwyr sy'n astudio mewn darparwyr partner systemau ar waith hefyd i ddarparu agweddau anffurfiol a ffurfiol ar gynrychiolaeth myfyrwyr er mwyn hyrwyddo diwylliant lle mae croeso i farn myfyrwyr ar bob lefel. Mae darparwyr partner wedi ymrwymo i gyfathrebu â myfyrwyr o ran pryd a sut y gweithredwyd ar eu hadborth, ac os nad yw newid yn bosibl, y rhesymau pam.

4 Undeb Myfyrwyr Wrecsam (UM Wrecsam)

4.1 Mae nifer o ffyrdd y gall myfyrwyr rannu adborth a llunio'r ffordd y mae eu Hundeb Myfyrwyr yn gweithredu.

4.2 Mae Cyngor Myfyrwyr yn Bwyllgor Undeb Myfyrwyr Wrecsam sy'n pennu polisi'r Undeb ac sy'n dwyn y swyddogion sabathol (Llywydd ac Is-lywydd) i gyfrif.

4.3 Mae'r aelodaeth yn cynnwys swyddogion ymgyrchu rhan-amser etholedig. Myfyrwyr cyfredol yw'r swyddogion hyn sy'n ymgymryd â'r rôl yn wirfoddol. Maent yn trafod ac yn pleidleisio ar bolisi sy'n llunio gwaith y swyddogion sabathol ar gyfer y flwyddyn academiaidd. Mae hyn yn cynnwys pa faterion y dylai'r swyddogion sabathol fod yn mynd i'r afael â nhw gyda'r Brifysgol i wella profiad y myfyrwyr.

4.4 Gyda chaniatâd, gall adrannau'r Brifysgol fynychu'r Cyngor Myfyrwyr i gasglu adborth am eu gwasanaeth.

4.5 Mae swyddogion sabathol WSU a'r Cyngor Myfyrwyr hefyd yn casglu adborth trwy amrywiaeth o fecanweithiau sy'n bwydo i bwyllgorau'r Brifysgol.

5 Siarter y Myfyrwyr

5.1 Mae Siarter y Myfyrwyr, a ddatblygwyd ar y cyd gan Brifysgol Wrecsam ac Undeb Myfyrwyr Wrecsam, yn nodi'r hyn y gall y Brifysgol a myfyrwyr ei ddisgwyl gan ei gilydd fel partneriaid mewn cymuned ddysgu.

6 System Cynrychiolwyr Cwrs

6.1 Mae'r system cynrychiolwyr cwrs, a ddatblygwyd gan Undeb Myfyrwyr Wrexham mewn partneriaeth â Phrifysgol Wrexham, yn sicrhau bod pob myfyriwr yn cael ei gynrychioli a/neu'n cael y cyfle i roi adborth ar lefel rhaglen. Mae cynrychiolwyr cwrs yn chwarae rhan allweddol wrth gasglu barn myfyrwyr a all ddylanwadu ar welliannau ar lefel rhaglen a'r Brifysgol ac fe'u cefnogir gan hyfforddiant.

6.2 Rhaid i gynrychiolwyr cwrs gael eu hethol yn ddemocrataidd gan fyfyrwyr ac ni ddylent gael eu dewis gan aelodau staff. Caiff etholiadau eu hwyluso gan Undeb Myfyrwyr Wrexham. Mae nifer y cynrychiolwyr cwrs a etholir yn amrywio, yn dibynnu ar faint y garfan. Rhaid i gorff y myfyrwyr wneud y penderfyniad ynghylch faint o gynrychiolwyr cwrs y dylid eu hethol. Rhaid i Arweinwyr Rhaglenni sicrhau bod manylion y cynrychiolydd cwrs etholedig yn cael eu cyhoeddi ar dudalen VLE y cwrs.

7 Effaith Ymgysylltiad Myfyrwyr


7.1 Mae yna lawer o ffyrdd y gall myfyrwyr rannu eu barn a'u hadborth, sy'n cefnogi ac yn llywio gwneud penderfyniadau a gwella profiad addysgol myfyrwyr.

7.2 Mae'r ffigur isod yn dangos sut mae adborth myfyrwyr yn cefnogi gwella rhaglenni a datblygiadau Sefydliadol sy'n arwain at brofiad gwell i fyfyrwyr.

7.3 Mae'r sefydliad yn adrodd ar welliant sy'n deillio o adborth Myfyrwyr drwy ei strwythur llywodraethu.

7.4 Mae Fforymau Llais Myfyrwyr yn rhoi cyfle i'r Brifysgol rannu camau gweithredu sy'n deillio o adborth myfyrwyr.

Ffigur 1: Effaith Adborth Myfyrwyr



8 Cyfleoedd ar gyfer Ymgysylltu â Myfyrwyr

8.1 Mae'r rhestr isod yn amlinellu rhai enghreifftiau o'r cyfleoedd i fyfyrwyr gymryd rhan yn unigol ac ar y cyd. Cyfeiriwch hefyd at y mecanweithiau adborth myfyrwyr a nodir yn adran 12.

- Sefyll am enwebiad fel cynrychiolydd cwrs
- Sefyll am enwebiad yn etholiadau Undeb y Myfyrwyr i ddod yn swyddog rhan-amser neu amser llawn
- Gwirfoddoli fel cynrychiolydd myfyrwyr ar bwyllgorau'r Brifysgol
- Rhannu adborth a syniadau drwy system adborth ar-lein (UNITU)
- Ymgysylltu â mecanweithiau adborth rhaglenni, fel Gwerthuso Modiwlau Myfyrwyr (SEMs) a Fforymau Llais Myfyrwyr (SVFs) i rannu adborth, barn a syniadau

- Ymgysylltu ag arolygon allanol, fel yr Arolygon Myfyrwyr Cenedlaethol (NSS), yr Arolwg Profiad Ôl-raddedig a Addysgir (PTES), y Baromedr Myfyrwyr Rhyngwladol (ISB) a'r Arolwg Canlyniadau Graddedigion.
- Cymryd rhan mewn grwpiau gwaith/prosiect/ffocws ar faterion penodol, megis ail-ddilysu rhaglenni, adolygiadau polisïau a gweithdrefnau neu weithgareddau gwella ansawdd eraill.
- Ymgysylltu ag archwiliadau allanol ac arolygiadau sefydliadol, fel Adolygiad Gwella Ansawdd (QER) ac adolygiadau PSRB.
- Gwirfoddoli fel myfyrwyr adolygu a chymryd rhan yn y broses o ddylunio a chymeradwyo rhaglenni newydd
- Siarad yn anffurfiol â darlithwyr, tiwtoriaid personol, cynrychiolwyr myfyrwyr, Swyddogion Undeb Myfyrwyr a staff cymorth proffesiynol (Gwasanaethau Gofyn)

8.2 Mae'r Brifysgol yn hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli gydag Undeb Myfyrwyr Wrecsam a'r tîm Cyflogadwyedd a Gyrfaedd.

9 Manteision Ymgysylltu i Fyfyrwyr a Phrifysgol Wrecsam

9.1 Wrth geisio barn myfyrwyr, mae Undeb Myfyrwyr Wrecsam (WSU) a'r Brifysgol yn cael eu harwain gan werthoedd craidd, sef rhagoriaeth, cynhwysiant, cydweithio, trawsnewid, ac yn sicrhau bod myfyrwyr wrth wraidd unrhyw broses gwneud penderfyniadau.

9.2 Mae ymgysylltiad myfyrwyr yn bwysig er mwyn datblygu ansawdd dysgu, addysgu a'r amgylchedd cymorth yn barhaus, gan amlygu meysydd o arfer da a lle gellid gwneud gwelliannau. Mae safbwynt y myfyriwr yn hanfodol i nodi beth sy'n gweithio'n dda ac yn helpu i nodi meysydd y gellir eu gwella.

9.3 Mae'n galluogi myfyrwyr i lunio, gwella a chyfoethogi'r dysgu, yr addysgu a phrofiad cyffredinol y myfyrwyr, ar gyfer myfyrwyr presennol a myfyrwyr y dyfodol a'r rhai a fydd yn astudio yn y dyfodol.

9.4 Mae myfyrwyr yn datblygu sgiliau allweddol trosglwyddadwy (fel ymgysylltu â syniadau cymhleth, cyfathrebu llafar, gwneud penderfyniadau a gweithio mewn timau), yn gwella eu CV ac yn cynyddu eu sgiliau cyflogadwyedd.

9.5 Mae'n galluogi myfyrwyr i fod yn bartneriaid yn eu haddysg. Mae staff a myfyrwyr yn gweithio mewn partneriaeth i greu atebion, gan greu cymuned o gynaliadwyedd gweithio mewn partneriaeth.

10 Hyfforddiant a Chymorth

10.1 Darperir hyfforddiant i staff a myfyrwyr ynghylch prosesau ymgysylltu â myfyrwyr ac fe'i gwneir ar y cyd rhwng Prifysgol Wrecsam ac Undeb y Myfyrwyr.

Rôl	Hyfforddiant	Adnoddau/Cefnogaeth
Cynrychiolwyr Cwrs	Hyfforddiant Cynefino Cynhadledd Flynyddol	Safle MsTeams Llawlyfr Cynrychiolwyr Cwrs
Myfyriwr Adolygu Cynrychiolwyr Pwyllgor Myfyrwyr	Hyfforddiant Cynefino	Llawlyfr Gwirfoddoli i Fyfyrwyr Mentor Enwebedig Cymorth ychwanegol yn ôl yr angen
Cadeiryddion SVF	Hyfforddiant y cadeirydd	Canllaw ar agenda
Tiwtor Personol	Cynhadledd Flynyddol	Hwb dysgu ac addysgu
Arweinydd y Rhaglen	Cwrs Mewnol	Hwb dysgu ac addysgu

11 Cydnabod a Dathlu Cyfraniad Myfyrwyr

11.1 Mae Prifysgol Wrecsam ac Undeb y Myfyrwyr yn cydnabod gwerth cyfraniadau ac adborth myfyrwyr drwy rannu effaith eu hadborth ar wella ansawdd profiad y myfyrwyr.

- Mae'r Brifysgol yn rhannu'r camau a gymerwyd o ganlyniad i adborth Myfyrwyr ar wefan y Brifysgol, o dan [Llais y Myfyriwr](#).
- Mae Undeb Myfyrwyr Wrecsam yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i fyfyrwyr am welliannau a wnaed o ganlyniad i'w hadborth ar fwrdd UNITU 'Gyda'n gilydd fe wnaethon ni newid'
- Mae Timau Rhaglenni yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i fyfyrwyr am welliannau i'r rhaglen sy'n deillio o adborth myfyrwyr.
- Ystyrir yr holl adborth gan fyfyrwyr fel rhan o'r broses Monitro a Gwella Parhaus mewn perthynas â rhaglenni.
- Caiff gwelliant sy'n deillio o adborth myfyrwyr ei drafod a'i rannu mewn Fforymau Llais Myfyrwyr (SVFs).
- Caiff canlyniadau NSS eu dadansoddi a'u trafod ar lefel y Pwyllgor a lefel Rhaglen. Mae canlyniadau'r adborth yn cefnogi ac yn llywio gwelliant, ar lefel rhaglen a lefel y sefydliad. Caiff cynlluniau gweithredu eu monitro yng nghyfarfodydd Tîm Arweinyddiaeth y Gyfadran a'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau (QSC).

11.2 Lle mae myfyrwyr wedi cymryd rhan weithredol mewn prosesau sicrhau ansawdd ehangach y Brifysgol, cydnabyddir a dethlir eu cyfraniad yn y ffyrdd canlynol:

- Modiwl 'Cydnabyddiaeth o Ymgysylltiad â Gwella a Sicrhau Ansawdd AU' a ddyfernir i'r myfyrwyr hynny sy'n gwirfoddoli fel Myfyrwyr Adolygu a/neu Gynrychiolwyr Pwyllgor.
- Enwebiad ar gyfer Gwobr Undeb Myfyrwyr Blynnyddol.

12 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

12.1 Bydd Prifysgol Wreccsam yn sicrhau bod unrhyw gynrychiolwyr, grwpiau neu baneli yn adlewyrchu amrywiaeth corff y myfyrwyr.

12.2 Gwneir addasiadau rhesymol i sicrhau bod cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd yn hygyrch i bob myfyriwr.

12.3 Mae Prifysgol Wreccsam yn ymdrechu i fod yn brifysgol gefnogol ac sy'n ystyriol o drawma wrth ddylunio a gweithredu ein holl brosesau a gweithdrefnau. Os oes angen addasiadau arnoch i gael mynediad at y weithdrefn hon neu os oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ar hygyrchedd, geiriad neu unrhyw ran o'r weithdrefn hon, anfonwch e-bost atom ar quality@wreccsam.ac.uk.

13 Y ffframwaith a'r mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â myfyrwyr

Dull Adborth	Pryd	Mathau o Adborth	Sut	Sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon	Ble mae hyn yn cael ei adrodd
UNITU	Unrhyw bryd	Adborth ar y Rhaglen a'r Gweithrediadau. Gellir postio negeseuon yn ddiennw neu drwy gyfrif ag enw.	Offeryn ar-lein	Mae'r offeryn yn casglu adborth sy'n cael ei anfon ar unwaith at yr unigolion / adrannau perthnasol. Mae Cynrychiolwyr Cwrs, Undeb Myfyrwyr ac Arweinwyr Rhaglenni yn monitro ac yn ymateb i adborth. Defnyddir y dull hwn yn aml i fynegi a datrys pryderon yn anffurfiol. Mae Cynrychiolwyr Cwrs yn defnyddio UNITU i nodi materion cyffredin a'u codi mewn cyfarfodydd SVF. Mae adborth yn cael ei adolygu fel rhan o Fonitro a Gwella Parhaus Rhaglenni (CME)	Mae materion heb eu datrys yn cael eu monitro gan Undeb y Myfyrwyr a byddant yn cael eu huwchgysyfeirio i'r QSC. Adroddir ar adroddiadau a chynlluniau gweithredu CME i'r Gyfadran i'w hadolygu a'u hasesu gan y Pwyllgor Ansawdd a Sicrwydd.
Gwerthusiad Myfyrwyr o'r Modiwl (SEMs)	Ar ddechrau modiwl ac ar ddiwedd modiwl	Holiadur/arolwg byr diennw ar gyfer pob modiwl sy'n ymwneud â'r dysgu, yr addysgu, yr asesu a'r adnoddau.	Holiadur ar-lein	Mae Arweinydd y Modiwl yn defnyddio gwybodaeth i nodi tueddiadau a nodi gwelliannau ar lefel y modiwl. Ystyrir camau gweithredu sy'n deillio o'ch adborth fel rhan o Fonitro a Gwella Parhaus rhaglenni.	Mae cynlluniau gweithredu CME yn cofnodi ac yn monitro cynnydd ac yn cael eu hadrodd i'r Gyfadran a'r QSC.
Fforymau Llais Myfyrwyr (SVFs)	Un bob semester	Adborth ar y rhaglen ac adborth ar brofiad	Cyfarfod Ar-lein neu Wyneb yn Wyneb	Mae gan SVFs linellau adrodd clir ac maent yn nodi aelodau staff perthnasol sy'n gyfrifol am frwr	Caiff cwblhau SVF ei fonitro gan y Pwyllgor Partneriaethau Cyfadran neu Academiaidd (ar

Dull Adborth	Pryd	Mathau o Adborth	Sut	Sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon	Ble mae hyn yn cael ei adrodd
		myfyrwyr/gweithredol.		ymlaen ag unrhyw gamau gweithredu. Cyhoeddir cofnodion a rhoddir gwybod i gorff y myfyrwyr am unrhyw ganlyniadau Mae adborth yn cefnogi Monitro a Gwella Parhaus rhaglen(ni) ac yn bwydo i drafodaethau ar lefel sefydliadol lle bo'n briodol.	gyferartneriaid cydweithredol). Adroddir ar adroddiadau a chynlluniau gweithredu CME i'r Gyfadran a'r QSC.
Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol	Unwaith y flwyddyn (myfyrwyr israddedig cymwys yn unig)	Arolwg cenedlaethol a gynhelir i gasglu ystadegau ar berfformiad darparwyr	Arolwg ar-lein	Mae'r NSS yn annibynnol ar y Brifysgol ac mae atebion yn aros yn ddienw. Mae'r NSS yn rhoi'r cyfle i roi adborth gonest am sut brofiad yw astudio yn y brifysgol. Mae'n ffynhonnell ddylanwadol o wybodaeth gyhoeddus am addysg uwch a gall helpu i lunio dyfodol cyrsiau a'r brifysgol ar gyfer myfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr. Mae'r adborth a geir o ddata'r NSS yn cael ei adolygu gan y Brifysgol ar lefel sefydliadol a rhaglen. Mae'n rhan hanfodol o Fonitro Parhaus a Gwella Rhaglenni a gweithdrefnau Cylch Bywyd Rhaglenni.	Dadansoddir data sefydliadol i nodi meysydd i'w datblygu a llywio cynlluniau gweithredu rhaglenni neu sefydliadol, ac adroddir ar hynny i'r QSC a'r Bwrdd Academaidd. Adroddir ar adroddiadau a chynlluniau gweithredu CME i'r Gyfadran a'r QSC Mae timau rhaglenni yn cynnal adroddiad hunanddadansoddi fel rhan o ail-ddilysu rhaglenni, mae hyn yn cynnwys ystyried adborth myfyrwyr wrth ddatblygu'r rhaglenni diwygiedig ac mae'n cael ei adolygu gan y Panel Dilysu.

Dull Adborth	Pryd	Mathau o Adborth	Sut	Sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon	Ble mae hyn yn cael ei adrodd
Arolwg Profiad Ôl-raddedig a Addysgir	Unwaith y flwyddyn (myfyrwyr ôl-raddedig cymwys yn unig)	Arolwg cenedlaethol a gynhelir i gasglu ystadegau ar berfformiad darparwyr	Arolwg ar-lein	Caiff data sefydliadol ei ddadansoddi i nodi meysydd i'w datblygu a llywio cynlluniau gweithredu rhaglenni neu sefydliadau.	Pwyllgor Ansawdd Dysgu ac Addysgu a'r Bwrdd Academaidd
Arolwg Canlyniadau Graddedigion	Unwaith y flwyddyn (myfyrwyr cymwys yn unig)	Arolwg cenedlaethol a gynhelir i gasglu ystadegau ar Ganlyniadau Graddedigion	Arolwg ar-lein	Mae arolwg Canlyniadau Graddedigion yn gofyn i fyfyrwyr cymwys sydd wedi ennill cymhwyster yn ddiweddar yn PW am y gwaith a/neu'r astudiaeth bellach maen nhw'n ei wneud yn fuan ar ôl graddio. Defnyddiodd y Brifysgol y wybodaeth hon i hyrwyddo cyrsiau.	Mae'r wybodaeth yn ddefnyddiol i gynghori myfyrwyr presennol am y cyfleoedd a allai fod ar gael iddynt ac i weld tueddiadau mewn cyflogaeth graddedigion.
Gwasanaethau Gofyn/Target Connect	Unrhyw bryd	Unrhyw adborth sy'n ymwneud â phrofiad myfyrwyr a fynegwyd drwy Wasanaethau Gofyn/Target Connect	Drwy drafodaeth, e-bost neu drwy sianeli cyfathrebu ar-lein eraill	Bydd adborth yn cael ei rannu gyda'r adran briodol lle bo'n berthnasol i gefnogi datrysiad cynnar os bydd unrhyw broblemau.	Bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu i alluogi datrys problemau neu i gefnogi gwella profiad y myfyrwyr.
Adborth Anffurfiol	Unrhyw bryd	Unrhyw adborth sy'n ymwneud â'ch profiad fel myfyriwr a fynegwyd yn anffurfiol gyda Chynrychiolwyr	Drwy drafodaeth, e-bost neu drwy sianeli cyfathrebu ar-lein eraill	Bydd adborth yn cael ei rannu gyda'r adran briodol neu drwy'r mecanweithiau adborth myfyrwyr ffurfiol priodol fel y gellir datrys problemau.	Mae Cynrychiolwyr Cwrs siarad ar ran eu cyfoedion mewn cyfarfodydd SVF. Gallant hefyd godi materion ar UNITU neu gyda staff y Rhaglen ar ran myfyrwyr.

Dull Adborth	Pryd	Mathau o Adborth	Sut	Sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon	Ble mae hyn yn cael ei adrodd
		Cwrs, Cynrychiolwyr Pwyllgor, tîm y Rhaglen, staff Cymorth, neu Undeb y Myfyrwyr			Mae Cynrychiolwyr y Pwyllgor yn mynychu cyfarfodydd lefel Sefydliadol a gallant godi materion gweithredol a lefel sefydliadol ar ran corff y Myfyrwyr Gall myfyrwyr godi materion yn uniongyrchol gydag unrhyw aelod o dîm y rhaglen neu staff cymorth gwasanaethau proffesiynol. Gall myfyrwyr godi materion yn uniongyrchol gydag unrhyw aelod o Undeb y Myfyrwyr. Mae Undeb y Myfyrwyr yn cynrychioli corff y myfyrwyr mewn amrywiol gyfarfodydd sefydliadol.